

# Gweithgaredd 5

## Archwilio hunaniaeth

**Nod:** Cynorthwyo plant i ddeall bod pob un ohonom yn perthyn i wahanol grwpiau. Mae gennym rai pethau'n gyffredin ag eraill ond, yn ogystal, mae gennym wahanol alluoedd a chymwysterau sy'n cyfrannu at ein hunigrywiaeth fel bodau dynol. **Amser:** 20 munud. **Oedran:** 5+. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** Gofod mawr agored, ee neuadd neu gampfa.

### Beth i'w wneud

Gofynnwch i'r plant sefyll mewn cylch gan ddal eu dwylo. Gweiddwch allan unrhyw nodwedd neu ddisgrifiad o'r rhestr (ar y dde). Dylai unrhyw blentyn sy'n ateb i'r disgrifiad hwnnw ddod i'r canol a ffurfio cylch arall (os yw hynny'n bosibl) ac wedyn dychwelyd i'r cylch gwreiddiol.

Nawr gofynnwch i'r plant awgrymu nodweddion, ac ailadroddwch y broses unwaith yn rhagor.

### Trafodaeth

- Ai'r un bobl oedd yn y grŵp yn y canol bob tro?
- Oedd bechgyn a merched yn yr un grŵp?
- Allwch chi ddweud beth yw nodweddion unigolyn drwy edrych arno'n unig?
- Oedd y grwpiau'r un maint bob tro?
- Ydy pob plentyn yn gyfartal?
- Pa un o'r grwpiau synnodd chi fwyaf?
- A adawyd rhywun allan? Sut oedd yr unigolyn hwn yn teimlo wedyn?
- Beth yw'r pethau da sydd ynglŷn â pherthyn i grŵp?

### NODWEDDION I'W GALW ALLAN

Bechgyn

Plant sydd a mwy na thri brawd a chwaer

Plant sy'n gwisgo sbectol heddiw

Plant sy'n hoffi Cyw

Plant sy'n hoffi *Tomos y Tanc*

Plant tal

Plant nad ydynt yn hoffi pêl-droed

Plant caredig iawn

Plant sydd â chath anwes

Plant sydd â chrocodeil anwes

Plant sy'n hoffi siocled

Plant swnllyd dros ben

Plant sy'n gwybod ystyr eu henw cyntaf

Plant sy'n medru siarad iaith arall

Plant sydd â'u gwallt yn dod yn is na'u hysgwyddau

Plant sydd wedi bod i wlad arall

Plant sydd â phen-blwydd yn yr haf

Plant sy'n mynd i'r ysgol

Plant sy'n gwisgo dillad arbennig ar adegau



© Marie Anne-Ventoura



© Paula Cox

**Ffynhonnell:** *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 13.